Enw:

Cyflwyno Algebra

Tasgau Ychwanegol

Cynnwys

Gweithgaredd	Tudalen
Cwis 1	3
Pâr Enghraifft – Ymarfer 1	4–5
Cwis 2	6
Sialens Diagram Venn 1	7
Pâr Enghraifft – Ymarfer 2	8–9
Cwis 3	10
Cyfesurynnau	11
Pâr Enghraifft – Ymarfer 3	12–13
Cwis 4	14
Sialens Diagram Venn 2	15
Pâr Enghraifft – Ymarfer 4	16–17
Cwis 5	18
Lluoswm Ffactorau Cysefin	19



Cwis 1




1) 7×9	2) $2.4 + 6.8$	3) $28 \div 4$
4) 3^2	5) $\sqrt{25}$	6) Rhestrwch holl ffactorau 12.
7) Cylchwch yr eilrifau. 863 90 203 90263 8 378	8) Ydi 33 yn rhif cysefin?	9) 50% o £25

allan o 9

Enghraifft 1

Ysgrifennwch 360 fel lluoswm ei ffactorau cysefin, yn y ffurf indecs.



Coeden ffactorau ar gyfer 360

Lluoswm ffactorau cysefin

$360 = 2 \times 2 \times 2 \times 3 \times 3 \times 5$

$360 = 2^3 \times 3^2 \times 5$

Yffurf indecs

Ymarfer 1

Ysgrifennwch 450 fel lluoswm ei ffactorau cysefin, yn y ffurf indecs.


___ allan o 3

Cwis 2

1) Pa rif sy'n dod nesaf? 14, 18, 22, 26, 30, _____


2) Ysgrifennwch 18:58 yn y cloc 12 awr.

3) Beth yw enw'r siâp yma?



4) $3 + 4 \times 5$

5) Lliwiwch 10% o'r siâp isod.



6) Rhestrwch yr holl rifau cysefin un digid.


7) 15×8

8) £1.40 – 54c

9) Beth yw cyfanswm yr onglau mewnol mewn unrhyw driongl?

___ allan o 9

Sialens Diagram Venn 1



Meddyliwch am rif a fyddai'n gallu mynd i bob rhanbarth.
Os ydych yn meddwl bod rhanbarth yn amhosibl i'w lenwi, eglurwch pam!

A

B


C

D

Enghraifft 2

Penderfynwch os yw'r rhif 676 yn rhif sgwâr, ai peidio.

Coeden ffactorau ar gyfer 676 →



$$\begin{array}{r} 338 \\ 2\overline{)676} \\ \end{array}$$

$$\begin{array}{r} 169 \\ 2\overline{)338} \\ \end{array}$$

$676 = 2 \times 2 \times 13 \times 13$


$676 = 2^2 \times 13^2$ ← Y ffurf indecs

Mae 676 yn rhif sgwâr gan fod y pwerau yn y ffurf indecs i gyd yn eilrifau.

Ymarfer 2

Penderfynwch os yw'r rhif 588 yn rhif sgwâr, ai peidio.


Cwis 3

1) $\sqrt{81}$	2) Ym mha bedrant mae'r cyfesuryn (–8, –3)?	3) 8 + –3
4) 36 ÷ 100	5) Sawl ymyl sydd gan hecsagon?	6) Cyfrifwch faint yr ongl goch. 
7) Cymedr 1, 3, 5, 7	8) 1^3	9) 30% o 20

allan o 9


Cyfesurynnau


Beth allwch ei ffeindio o'r wybodaeth yma?



Enghraifft 3

Darganfyddwch ffactor cyffredin mwyaf a lluosrif cyffredin lleiaf 24 a 60.





Y rhifau yng nghanol y diagram Venn

Ffactor Cyffredin Mwyaf = 2 × 2 × 3
= 12

Pobrhif yn y diagram Venn

Lluosrif Cyffredin Lleiaf

= 2 × 2 × 2 × 3 × 5
= 24 × 5
= 120

24

2 4
× 5
1 2 0
2

Ymarfer 3

Darganfyddwch ffactor cyffredin mwyaf a lluosrif cyffredin lleiaf 30 a 75.

___ allan o 5


Cwis 4

1) 9×8

2) 40% o \$80

3) Ysgrifennwch 209,030 mewn geiriau.

4) Lliwiwch $A \cup B$.




5) $6 + 9 \div 3$

6) Pa fath o ongl yw'r ongl 270°?


7) Amrediad
9, 0, 4, 2, 12, 7

8) $-5 + -2$

9) Labelwch y pedrantau.



Sialens Diagram Venn 2



Ysgrifennwch ddilyniant rhifyddol a fyddai'n gallu mynd i bob rhanbarth. Os ydych yn meddwl bod rhanbarth yn amhosibl i'w lenwi, eglurwch pam!

A

B

C

D

E

F

G

H



Enghraifft 4

Mae gan Arwyn x o gardiau.
Mae gan Bryn nifer o gardiau sy'n ddwbl cardiau Arwyn.
Mae gan Cerys 5 yn fwy o gardiau nag Arwyn.
Gyda'i gilydd, mae ganddynt 33 o gardiau.
Sawl cerdyn sydd gan bob person?

Arwyn + Bryn + Cerys = 33
$x + 2x + x + 5 = 33$
$4x + 5 = 33$ [casglu termau]
$4x = 28$ [-5]
$x = 7$ [$\div 4$]

Arwyn: 7 cerdyn
Bryn: $7 \times 2 = 14$ cerdyn
Cerys: $7 + 5 = 12$ cerdyn
(Gwirio: $7 + 14 + 12 = 33$ ✓)

Ymarfer 4

Mae gan Anita x o gardiau.
Mae gan Brenda nifer o gardiau sy'n ddwbl cardiau Anita.
Mae gan Carwyn 3 yn fwy o gardiau nag Anita.
Gyda'i gilydd, mae ganddynt 27 o gardiau.
Sawl cerdyn sydd gan bob person?

___ allan o 6



Cwis 5



Datryswch yr hafaliadau canlynol.

1) $x + 7 = 10$	2) $x - 1 = 5$	3) $3x = 15$
4) $\frac{x}{2} = 8$	5) $\frac{15}{x} = 3$	6) $2x + 1 = 19$
7) $3x - 2 = 19$	8) $4x + 1 = 2x + 7$	9) $5x - 2 = 2x + 7$

allan o 9



Lluoswm Ffactorau Cysefin



1) Ysgrifennwch x yn y ffurf indecs.

2) Yn ystyried y rhifau x ag y, pa un ohonynt sy'n rhif sgwâr?

$$x = 2 \times 2 \times 3 \times 3 \times 5 \times 5$$

$$y = 2 \times 3 \times 3 \times 5 \times 5$$

3) Beth yw ffactor cyffredin mwyaf x ag y?

4) Beth yw lluosrif cyffredin lleiaf x ag y?

allan o 5

Adolygu'r Pecyn







Nodiadau